**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/3129/13

David Rees AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

11 Medi 2013

Annwyl David

Diolch i chi am anfon adroddiad y Pwyllgor "Ymchwiliad i achosion o'r frech goch 2013" ataf. Nodaf y materion allweddol y mae'r Pwyllgor wedi'u codi i'w hystyried ymhellach gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner a byddaf yn ymdrin â'r rhain yn fwy manwl isod. Rydym yn disgwyl am ganfyddiadau'r adroddiad cynhwysfawr am yr achosion sy'n cael ei baratoi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond yn y cyfamser mae nifer o fesurau ar waith i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes.

Rwy'n llwyr gefnogi barn y Pwyllgor mai'r unig ffordd o atal achosion pellach o'r frech goch yw gwneud ymdrechion i gynnal y niferoedd sy'n cael y brechlyn MMR ar lefel lle sicrheir imiwnedd y boblogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd i gwrdd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddileu'r problemau iechyd a achosir gan y frech goch, clwy'r pennau a rwbela drwy gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn brechlyn MMR.

Mae ffigurau'r rhai sy'n derbyn brechlyn MMR arferol yn parhau i ddangos tuedd gadarnhaol. Yn sesiwn yr ymchwiliad roedd ffigurau'r rhai oedd wedi derbyn y brechlyn oedd ar gael y pryd hwnnw a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer chwarter cyntaf 2013 (COVER Ionawr-Mawrth 2013) yn dangos bod niferoedd cyfartalog cenedlaethol y rhai oedd wedi derbyn y dos cyntaf o MMR mewn plant dyflwydd oed wedi cyrraedd dros 95% am y tro cyntaf erioed.  Mae data ar gyfer yr ail chwarter (COVER Ebrill-Mehefin 2013) bellach ar gael ac mae'n dangos bod niferoedd cyfartalog y rhai oedd wedi derbyn yr MMR ar draws Cymru wedi parhau i wella ar draws pob ystod oedran:

| **Y niferoedd a dderbyniodd yr MMR yng Nghymru *** | **Chwarter 1 Ionawr-Mawrth 2013** | **Chwarter 2 Ebrill-Mehefin 2013** |
|---|---|---|
| Yn ddyflwydd oed:<br>MMR 1 | <br>95.1% | <br>95.9% |
| Yn bum mlwydd oed:<br>MMR1<br>MMR2 | <br>96.1%<br>90.4% | <br>96.9%<br>92.2% |
| Yn 16 mlwydd oed:<br>MMR1<br>MMR2 | <br>90.7%<br>82.1% | <br>94.2%<br>87.0% |

*Adroddiad COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru
http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54144

Er bod gwelliant amlwg wedi bod o ran cynyddu'r brechu arferol, mae angen sicrhau bod yr holl blant ac oedolion ifanc yn cael eu gwarchod yn llawn gan ddau ddos MMR a bod y rhai sydd wedi colli allan ar frechu yn cael cynnig cyfleoedd i ddal i fyny.

Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu yn seiliedig ar Fframwaith Cyflawni newydd y GIG sy'n cynnwys, fel mesur Haen 1, yr angen i sicrhau bod 95% o blant yn cael eu himiwneiddio'n llawn erbyn eu bod yn bedair oed. Bydd bodloni'r amcan hwn yn sicrhau y bydd plant yn cael y ddau ddos o MMR ar yr amser a drefnwyd.

Ar 18 Gorffennaf ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd yn gofyn am gopïau o'u cynlluniau ar gyfer cyflawni'r amcanion imiwneiddio Haen 1, ynghyd â chynlluniau i frechu plant hŷn nad ydynt wedi derbyn un neu ddau ddos o MMR.  Mae pob bwrdd iechyd wedi cyflwyno cynlluniau ac mae'r rhain wedi cael eu gwerthuso gan swyddogion. Mae'r cynlluniau yn rhoi sicrwydd y bydd y gwaith o adnabod a dilyn i fyny plant sydd wedi colli allan ar MMR yn flaenoriaeth i fyrddau iechyd a bod mesurau yn eu lle i roi cyfleoedd i gael y brechlyn i bob grŵp oedran perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n fwy anodd eu cyrraedd.

Er mwyn ymateb yn fanylach i'r materion penodol y mae'r Pwyllgor wedi:

**Codi ymwybyddiaeth o'r angen i gael y brechiad MMR**

Mae ystod o ddeunyddiau ar gael yn barod i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i gael y ddau ddos o MMR:

- Bob haf mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn e-bostio ac yn cysylltu â sefydliadau addysg bellach, addysg uwch a cholegau Cymru er mwyn eu hysbysu am bwysigrwydd sicrhau bod myfyrwyr wedi'u diweddaru gyda MMR cyn dechrau'r tymor. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn

darparu taflenni, templedi testun, llythyrau a negeseuon e-bost i'w defnyddio gan y sefydliadau.

- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i boster a ddyluniwyd yn unigol, gyda'r logo[1] '10 erbyn 5' arno, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghori gan grŵp ffocws gyda rhieni, ac a ddosbarthwyd i feddygfeydd Meddygon Teulu, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a lleoliadau cyn-ysgol i gynyddu ymwybyddiaeth am yr angen i blant fod wedi derbyn y brechiadau arferol cyn iddynt fod yn bump oed. Mae hwn wedi canolbwyntio ar y pigiad atgyfnerthu cyn-ysgol sy'n cynnwys yr 2ail MMR.

- Datblygwyd DVD a phecyn gwaith gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w defnyddio ochr yn ochr â fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) Llywodraeth Cymru mewn ysgolion uwchradd - 'Imiwneiddio - Peidiwch â gadael yr ysgol hebddynt'. Mae'r rhain wedi bod ar gael ers 2009 a chawsant eu dosbarthu i bob ysgol uwchradd ac arweinwyr ABCh yng Nghymru.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu pecyn adnoddau imiwneiddio sy'n cynnwys enghreifftiau o ddogfennau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo imiwneiddio mewn lleoliadau cyn-ysgol ar gyfer plant a staff. Mae'n rhoi cyngor am fwy o ffynonellau gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol. Cafodd y pecyn ei ddosbarthu i bob lleoliad cyn-ysgol yng Nghymru yn 2012.

- Anfonir llythyrau templed, ffurflenni caniatâd, gwybodaeth ac arweiniad at Fyrddau Iechyd i gefnogi'r gwaith o gydlynu a hyrwyddo rhaglenni mewn ysgolion.

- Mae adnoddau addysgu ar gyfer plant / myfyrwyr mewn ysgolion ar gael i helpu pobl ifanc i ddeall eu bod yn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau am imiwneiddio drostynt eu hunain lle bo hynny'n briodol.

- Datblygwyd posteri gan y GIG sy'n atgoffa'r cyhoedd bod angen dau ddos o'r brechlyn MMR i roi amddiffyniad. Mae'r rhain ar gael mewn nifer o ieithoedd. Mae taflen ffeithiau ar gael hefyd sy'n tynnu sylw at ffeithiau allweddol am y frech goch.

**Cynyddu cyfleoedd i dderbyn brechiad MMR**

Mae cylchlythyr polisi Llywodraeth Cymru (2005) 81 yn ei gwneud yn ofynnol i ddilyn plant sydd wedi colli un neu ragor o ddosau o MMR wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd ac uwchradd a phan fydd y pigiad atgyfnerthu i rai yn eu harddegau yn cael ei gynnig. Mae hyn yn cynnig o leiaf dri chyfle

---

[1] Mae'r ymgyrch "10 erbyn 5" a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at yr angen i blant gael eu himiwneiddio rhag 10 math o salwch difrifol cyn iddynt gyrraedd pump oed.

rheolaidd arall i blant sydd wedi colli dos rheolaidd o MMR i gael cynnig dal i fyny.

Mae llawer o'r byrddau iechyd lleol eisoes yn cynnig brechlyn MMR ochr yn ochr â'r pigiad atgyfnerthu i rai yn eu harddegau mewn ysgolion. Mae canllawiau a deunyddiau hyrwyddo ar gael i helpu i gyflwyno'r brechlynnau hyn i bobl ifanc. Bydd cyflwyno'r brechlyn Llid yr Ymennydd C newydd i bobl ifanc o fis Medi 2013 yn cynyddu nifer y brechlynnau y gellir eu cynnig yn y sesiynau hyn i dri mewn un cyswllt.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn argymell bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio pob math o gyfarfod gyda phobl ifanc neu oedolion ifanc fel cyfle i wirio eu statws imiwneiddio ee rhai sy'n cofrestru o'r newydd, gwasanaethau iechyd rhywiol, asesiadau ceiswyr lloches ac asesiadau teithio mewn gofal sylfaenol.

**Y nifer sy'n derbyn brechiad MMR ymysg staff iechyd rheng flaen**

Yn y sesiwn dystiolaeth dywedais, yn fy marn i, mai cyfrifoldeb proffesiynol pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yw amddiffyn eu hunain a'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw rhag clefydau y gellir eu hatal ac, felly, sicrhau eu bod nhw eu hunain yn cael eu himiwneiddio. Rwyf wedi dweud na fyddwn yn cefnogi gorfodaeth ond mae llawer y gellir ei wneud i berswadio ac addysgu staff gofal iechyd i sicrhau eu bod yn cael eu brechu'n llawn.

Tynnwyd sylw byrddau iechyd at yr angen i gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn MMR ymysg staff. Ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol ar 19 Ebrill yn gofyn i Brif Weithredwyr wirio statws MMR eu staff a sefydlu archwiliadau ehangach ar frechu staff yn erbyn yr holl glefydau heintus fel y darperir ar ei gyfer yn y DU. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi byrddau iechyd trwy gynhyrchu canllawiau arfer da ar gyfer staff newydd a phresennol.

Bydd cynyddu niferoedd staff y GIG sy'n derbyn brechiad, gan gynnwys yr opsiwn o gyflwyno "pasbort iechyd" fel y mae'r Pwyllgor wedi awgrymu, yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd i wella'r amrywiaeth o wasanaethau iechyd galwedigaethol o fewn GIG Cymru.

**Hyfforddiant Staff**

Mae'r achosion diweddar wedi ein hatgoffa o'r angen i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i adnabod a delio ag effeithiau'r frech goch.

- Mae'r hyfforddiant presennol a roddir i'r rhai sy'n brechu yn cynnwys diweddariadau am faterion cyfredol ac epidemioleg. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn diweddaru adnoddau hyfforddi craidd yn rheolaidd ar gyfer byrddau iechyd ac yn darparu sesiynau diweddaru ar gyfer yr hyfforddwyr. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cynnal

digwyddiadau hyfforddi cenedlaethol ac yn cynnal tudalen gwe ar y pwnc hwn.

- Bwriadwyd i'r pecyn "Chwalu'r Chwedlau am MMR" gael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol, gyda rhieni, i gefnogi staff gofal sylfaenol wrth ddarparu gwybodaeth gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda diagramau clir i chwalu'r camsyniadau cyffredin ynghylch y brechlyn MMR a oedd yn cylchredeg ar y pryd. Cafodd ei gyhoeddi a'i ddosbarthu i bob practis yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2000, a chafodd ei ddefnyddio hefyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon am nifer o flynyddoedd cyn i adnoddau eraill ymddangos.

- Mae modiwlau e-ddysgu am Imiwneiddio yn cael eu datblygu a'u gweithredu. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys modiwl ar gyfer staff ar imiwneiddio galwedigaethol, gan gynnwys MMR a ffliw.

- Defnyddir storïau'r cleifion mewn sesiynau hyfforddi ee stori Rachel a stori Naomi (o achosion y frech goch yn Nulyn) i atgoffa staff am ddifrifoldeb ac effaith bosibl y frech goch.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu a darparu pecyn hyfforddiant MMR penodol i'w ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae nifer o grwpiau eisoes wedi gwneud defnydd o hwn, gan gynnwys elusennau, clinigau gofal iechyd rhywiol, carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc.

**Rhannu data a systemau TGCh**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wella'r dull o drin gwybodaeth a chysylltedd systemau TGCh o fewn y gwasanaeth iechyd a symud i ffwrdd oddi wrth systemau sy'n seiliedig ar bapur.

Cynhyrchwyd "Safonau Proses Imiwneiddio Iechyd Plant - CHIPS" gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2011 ac maent yn darparu safonau isafol cenedlaethol ar gyfer imiwneiddio plant a data. Mae hyn yn cefnogi trin gwybodaeth yn well a chywirdeb wrth gofnodi brechiadau o fewn systemau presennol.

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn ystyried newid system feddalwedd bresennol Iechyd Plant Cymunedol 2000 (CCH2000) a ddefnyddir gan yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru i drefnu imiwneiddio arferol ar gyfer plant ac i adnabod y plant hynny y mae angen cynnig brechiad MMR iddynt mewn sesiynau dal i fyny. Rhagwelir y bydd NWIS yn barod i dreialu system newydd y flwyddyn nesaf.

Mae gan NWIS hefyd brosiect ar hyn o bryd sy'n edrych ar y posibilrwydd o drosglwyddo data yn electronig rhwng systemau meddygon teulu a CCH2000 neu'r hyn fydd yn cymryd ei le.

Mae cynrychiolydd o NWIS wedi ymuno â Grŵp Imiwneiddio Cymru i hwyluso adborth gan y gwasanaeth i gynorthwyo gyda datblygu'r systemau newydd hyn ar gyfer gwella cysylltedd ac effeithiolrwydd.

Mae Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi datblygu prototeip o fersiwn digidol o Gofnod Iechyd Personol y Plentyn (PCHR) neu "Y Llyfr Coch" sef y prif gofnod o iechyd a datblygiad plentyn sy'n cael ei ddefnyddio i gofnodi holl imiwneiddiadau plentyndod. Mae hyn yn cael ei dreialu mewn rhai ardaloedd yn Lloegr i weld pa fanteision sydd i'w cael o fformat digidol. Byddwn yn monitro canlyniad gwerthusiad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a byddwn yn edrych ar y goblygiadau i Gymru.

**Cyfathrebu**

Rwy'n cytuno gyda barn y Pwyllgor ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth gadarn, ddibynadwy ac amserol i'r cyhoedd a'r cyfryngau. Byddwn yn adolygu ac yn datblygu'r berthynas gadarnhaol a sefydlwyd yn ystod yr achosion diweddar.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd maes o law ynghylch y cyfleoedd a gynigir drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod achosion ac i hyrwyddo teuluoedd i dderbyn brechiad. Yna gellir ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi gweithgareddau o'r fath. Mae anghenion grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd a'r gwasanaethau imiwneiddio sy'n cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer y grwpiau hyn yn cael eu hystyried hefyd fel y gall dulliau cyfathrebu gael eu teilwra i ddiwallu eu hanghenion cyn belled ag y bo modd. Cydnabyddir y bydd angen gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol grwpiau.

O ran y pwynt a gododd y Pwyllgor ynghylch effeithiolrwydd ac argaeledd gwasanaethau negeseuon testun yr ysgolion, rwy'n ysgrifennu at fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, i weld a oes cynlluniau i ymestyn y gwasanaeth i bob ysgol ar draws Cymru. Byddaf yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

Hyderaf y bydd fy atebion uchod yn rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch y cwestiynau penodol a godwyd. Bydd Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd yn parhau i gymryd pob cam angenrheidiol a phriodol i atal achosion tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Rwy'n croesawu cefnogaeth barhaus y Pwyllgor i gyflawni hyn.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol